Kirsty Williams AC
Y Gweinidog Addysg
Minister for Education

Vaughan Gething AC/AM
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-05-865
Ein cyf/Our ref KW/06255/19

Janet Finch-Saunders AC
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Caerdydd
CF99 1NA

Government.Committee.Business@llyw.cymru

17 Mehefin 2019

Annwyl Janet

Ysgrifennwn atoch mewn ymateb i'ch llythyr dyddiedig 30 Mai 2019, oedd yn gofyn i ni egluro mwy am ddarparu dewisiadau bwyd llysieuol a figan mewn ysgolion ac ysbytai.

Nid yw'r ddeddfwriaeth bresennol[1] yn nodi fod rhaid i awdurdodau lleol neu gyrff llywodraethu ysgolion ddarparu bwyd llysieuol a bwyd figan. Er hynny, mae'r canllawiau statudol, sef *Bwyta'n iach mewn ysgolion a gynhelir*[2], yn rhoi manylion ynghylch y mathau o fwydydd y gellir eu defnyddio ar gyfer deiet llysieuol a deiet figan. Mae hyn yn cynnwys nifer o opsiynau llysieuol a figan naturiol, fel grawnfwydydd, llysiau, ffrwythau a bara, sydd yn gallu bod yn ddewis i blant i frecwast neu amser cinio. Mae'r canllaw hefyd yn rhoi cyngor ymarferol ar y mathau o fwydydd y dylai plant llysieuol a phlant figan eu bwyta er mwyn sicrhau eu bod yn cael digon o brotin, ac mae'n argymell bod protin planhigion yn cael eu cynnwys ar fwydlenni mewn ysgolion. Gan mai canllaw statudol yw hwn, byddai'n rhaid bod gan awdurdodau lleol resymau clir y gellir eu cyfiawnhau dros ei anwybyddu.

Mae awdurdodau lleol drwy Gymru yn cynnig opsiwn llysieuol oer i blant yn ystod amser cinio a gall rhieni ofyn am opsiwn figan hefyd.

[1] Rheoliadau Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Gofynion a Safonau Maeth) (Cymru) 2013

[2] https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-12/bwyta-n-iach-mewn-ysgolion-a-gynhelir-canllawiau-statudol-i-awdurdodau-lleol-a-chyrff-llywodraethu.pdf

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

O ran ysbytai GIG Cymru, mae Safonau Maeth ac Arlwyo Cymru Gyfan (2011) yn nodi'r nodi'r maethynnau sy'n angenrheidiol er mwyn darparu ar gyfer anghenion amrywiol cleifion mewn ysbytai. Er mwyn helpu i weithredu'r safonau hyn, mae deietegwyr ac arlwywyr drwy Gymru wedi bod yn cydweithio i greu Fframwaith Bwydlenni Ysbytai Cymru Gyfan, a lansiwyd ddiwedd mis Ionawr 2013. Mae'r fframwaith yn cynnwys cronfa ddata o 150 rysáit safonol sydd wedi'u hasesu o ran maeth, a bwydlenni enghreifftiol. Mae'r wefan ategol yn cynnwys cynhwysion, manylebau'r cynnyrch a chod alergen er mwyn sicrhau bod yr wybodaeth yn gywir ac yn hygyrch. Mae ymarfer cychwynnol wedi cael ei wneud i nodi'r meysydd lle mae angen ail-edrych ar Safonau Maeth ac Arlwyo Cymru Gyfan, a chytunwyd bod angen diweddaru rhai agweddau arnynt. Bydd hyn yn cynnwys bwyd llysieuol a bwyd figan.

Gobeithio y bydd yr wybodaeth hon o ddefnydd ichi.

Yn gywir



Kirsty Williams AC/AM
Y Gweinidog Addysg
Minister for Education

Vaughan Gething AC/AM
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services